Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Adroddiad blynyddol drafft ar gydnabyddiaeth ariannol

## 2026 - 2027

cdffc.llyw.cymru
cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

# Cynnwys

Rhagair ... 3
Pennod 1. Cyflwyniad ... 4
Taliadau ailsefydlu ... 4
Rolau uwch ... 4
Cynghorau cymuned a thref (CCTh) ... 4
Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) ... 5
Aelodau cyfetholedig a lleyg ... 5
Cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) ... 5
Ymgysylltu ... 5
Pennod 2. Penderfyniadau ar gyfer 2026-27 ... 6
Penderfyniad 1/2026: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau ... 6
Penderfyniad 2/2026: Cyflogau a delir i aelodau uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau ... 6
Penderfyniad 3/2026: Cyflogau ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh) .. 8
Penderfyniad 4/2026: Taliadau i aelodau'r APC a'r ATA ... 8
Penderfyniad 5/2026: Aelodau cyfetholedig o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig .. 9
Penderfyniad 6/2026: Taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref (CCTh) ... 9
Pennod 3. Crynodeb o'r penderfyniadau ar gyfer 2026-27 ... 11
Pennod 4. Penderfyniadau cyfredol o flynyddoedd blaenorol ... 12
Beth sy'n digwydd nesaf ... 18

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Mae'r ddogfen hon wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg gan Calan.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

# Rhagair

Croeso i'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, sy'n pennu'r penderfyniadau ar dâl, treuliau a buddion ar gyfer aelodau prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod cyfraniad y rhai sy'n ein cynrychioli. Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at rôl ehangach y Comisiwn wrth gefnogi iechyd democrataidd Cymru.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Comisiwn ar ein gwefan [Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru | CDFfC.]

Dyma'r adroddiad drafft cyntaf ers i'r maes pwysig hwn o waith gael ei ychwanegu at ein cylch gorchwyl. Roedd y rôl hon yn flaenorol yng ngofal Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Panel am drosglwyddo fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cadarn a diolch iddynt a Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth wrth drosglwyddo'r gwaith i'r Comisiwn.

Diolch hefyd i ysgrifenyddiaeth y Comisiwn sydd wedi cefnogi'r maes gwaith hwn, a llunio'r adroddiad drafft.

Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn edrych ar rai pynciau arwyddocaol yn ogystal â'n huwchraddio blynyddol:

> Mae [Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried taliadau ailsefydlu ar gyfer yr aelodau etholedig hynny sy'n colli eu seddi mewn etholiad, a briffio cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar yr hyn a fyddai yn ein barn ni yn gynllun talu priodol.
>
> Byddwn yn adolygu'r fframwaith ar gyfer sut y cydnabyddir rolau uwch yn ariannol mewn prif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben a gwneud newidiadau lle bo hynny'n briodol.
>
> Byddwn yn edrych ar y mesur a ddefnyddiwn i benderfynu ar uwchraddio blynyddol lefelau cydnabyddiaeth ariannol i asesu a yw'r mynegai yn parhau i fod y mwyaf perthnasol i ni ei ddefnyddio ai peidio, ac i ailasesu llwythi gwaith aelodau.

Ym mhob un o'r pethau hyn, byddwn yn ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill ac yn ystyried eu barn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Mae'r adroddiad drafft hwn bellach wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar fanylion ein penderfyniadau arfaethedig neu unrhyw feysydd perthnasol eraill yr ydych chi'n credu y dylem eu hystyried.

Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 18 Tachwedd 2025. Gallwch anfon eich sylwadau atom yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Mae eich barn yn bwysig i ni, a bydd popeth rydych chi'n ei anfon atom yn cael ei ystyried wrth i ni lunio ein penderfyniadau terfynol, yr ydym yn bwriadu eu cyhoeddi yn ein hadroddiad blynyddol erbyn diwedd 2025.

**Beverley Smith**

**Cadeirydd**

# Pennod 1. Cyflwyniad

1. Mae'r Comisiwn wedi ymgymryd â swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA). Rydym yn ymwybodol o waith PACGA yn y gorffennol ac yn diolch iddynt am eu hadroddiad etifeddiaeth[1].
2. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith taliadau unwaith yn unig ym mhob cylch etholiadol. Bydd yr adroddiad cyn pob etholiad llywodraeth leol yn ystyried newidiadau mawr i'r fframwaith, gyda'r rhai rhyngddynt yn canolbwyntio ar uwchraddio blynyddol. Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad drafft hwn ar gyfer 2026-27 yn ystyried uwchraddio symiau lle bo hynny'n briodol ond yn gadael y fframwaith heb ei newid. Bydd yr adroddiad nesaf, ar gyfer 2027-28, y mae'n ofynnol i ni ei gyhoeddi erbyn diwedd Chwefror 2027, yn diweddaru'r fframwaith ar gyfer yr aelodau hynny a fydd yn cael eu hethol yn etholiadau lleol Mai 2027.
3. Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025–26 yn amlinellu sawl amcan allweddol i'r Comisiwn o ran cydnabyddiaeth ariannol:

    - Asesu'r angen posibl am daliadau ailsefydlu a chefnogi swyddogion gyda deunyddiau briffio ar gyfer unrhyw ystyriaethau rheoleiddio cysylltiedig.
    - Ailedrych ar y Fframwaith a'r Fethodoleg ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol Rolau Uwch ar draws Prif Gynghorau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
    - Archwilio'r meincnod presennol sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o Enillion yr Awr, ochr yn ochr â gwerthusiad o lwyth gwaith aelodau.

## Taliadau ailsefydlu

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ystyried pa daliadau, os o gwbl, y dylai prif gynghorau eu gwneud i gynghorwyr sy'n sefyll i gael eu hailethol ond sy'n aflwyddiannus. Bydd angen i ni gydbwyso anghenion aelodau etholedig wrth iddynt beidio â bod yn gynghorwyr mwyach yn erbyn cyllidebau cynghorau, gan ystyried, os yw'n briodol, y rhai sy'n derbyn symiau rolau uwch o fewn eu cyngor.
5. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu y dylid sefydlu cynllun taliad ailsefydlu, rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau i hwn fod ar waith ar gyfer etholiadau lleol 2027.

## Rolau uwch

6. Bydd y Comisiwn yn arolygu awdurdodau, eu haelodau a'u cyrff cynrychioliadol i weld a yw'r fframwaith presennol o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rhai sydd â rolau uwch yn cydnabod yn briodol ymrwymiad amser a chyfrifoldebau'r rolau hynny. Byddwn yn cynnwys unrhyw benderfyniad sy'n dilyn o'r ymchwil hon yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2027-28.

---

[1] Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad etifeddiaeth | LLYWODRAETH. CYMRU

## Cynghorau cymuned a thref (CCTh)

7. Roedd PACGA wedi symleiddio'r gofynion adrodd ar gyfer CCTh yn flaenorol i annog aelodau i dderbyn lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, a bydd gwaith yn parhau i fonitro effaith hyn.

## Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC)

8. Mae CBC yn fath cymharol newydd o gorff. Mae pob un o'r pedwar pwyllgor yn cynnwys arweinwyr y prif gynghorau yn ei ardal a chadeirydd unrhyw awdurdod parc cenedlaethol sy'n gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ei ffiniau. Mae'r arweinwyr hyn yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu rôl o fewn eu cyrff priodol.
9. Mae pob pwyllgor wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i ymdrin â meysydd arbenigol ac mewn un achos Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
10. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ynghylch pa un a yw unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol yn briodol i adlewyrchu'r ymrwymiad amser ychwanegol a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â CBC, ac yn cynnwys unrhyw benderfyniad yn ei adroddiad blynyddol 2027-28.

## Aelodau cyfetholedig a lleyg

11. Uwchraddiodd y PACGA gydnabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig prif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol (APC) ac awdurdodau tân ac achub (ATA) ddiwethaf yn ei adroddiad blynyddol 2022[2] a chynhwysodd aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig (CBC) yn ei adroddiad atodol 2024[3]. Roedd y cyfraddau yn gysylltiedig â'r cyfraddau penodiadau cyhoeddus a dalwyd gan Lywodraeth Cymru, nad ydynt wedi cael eu huwchraddio ers rhai blynyddoedd.
12. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygiad o'r cyfraddau hyn a bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg awdurdodau perthnasol.

## Cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)

13. Bydd y Comisiwn yn ystyried a yw'n parhau i fod yn briodol i gydnabyddiaeth ariannol gael ei gysylltu â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r elfen Gymraeg o’i Harolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

## Ymgysylltu

14. Byddwn yn parhau ag ymgysylltiad y Panel â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a Chymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru fel y cyrff cynrychioliadol ar draws y teulu llywodraeth leol, yn ogystal ag awdurdodau unigol, ac yn ystyried eu barn wrth i ni wneud penderfyniadau, gan barhau i ystyried effaith ein penderfyniadau ar gyllidebau awdurdodau.

---

[2] Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2021 i 2022 | LLYWODRAETH. CYMRU

[3] Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adolygiad o dâl i aelodau lleyg ar cyd-bwyllgorau corfforedig | LLYWODRAETH. CYMRU

# Pennod 2. Penderfyniadau ar gyfer 2026-27

## Penderfyniad 1/2026: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau

15. Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i'r holl aelodau etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am gyfrifoldeb cynrychiolaeth gymunedol a chyfranogiad yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar drefn gyfwerth ag amser llawn o 3 diwrnod yr wythnos. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ymrwymiad amser hwn, ac ni chynhigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2026-27.
16. Mae'r Comisiwn yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus a'r effaith y bydd ei benderfyniadau yn ei chael ar gyllidebau prif gynghorau. Mae'r Comisiwn hefyd yn ymwybodol o'n nodau a'n hamcanion i ddarparu pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac i annog amrywiaeth o gynrychiolaeth.
17. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn iawn cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027. Bydd y cyflog sylfaenol yn cael ei alinio â thair rhan o bump o ASHE Cymru gyfan 2024[4], y ffigur diweddaraf oedd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn. Y cyflog sylfaenol fydd £21,044, cynnydd o 6.4% ar 2025-26.

## Penderfyniad 2/2026: Cyflogau a delir i aelodau uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau

18. Mae pob cyflog uwch yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol pob rôl a rhwng pob rôl yn cael eu cydnabod mewn fframwaith bandio. Ni chynhigir unrhyw newidiadau i fandiau eleni.
19. Bydd yr elfen gyflog sylfaenol yn cael ei chodi yn unol ag ASHE a bydd yr un cynnydd hefyd yn berthnasol i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3, 4 a 5, gan roi cynnydd o 6.4% i bob rôl.
20. Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) felly fydd £78,917. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu drwy gyfeirio at hyn ac fe'u nodir yn Nhablau 1 a 2 isod.

---

[4] Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2024 [HTML] | LLYWODRAETH. CYMRU

## Tabl 1: cyflogau sy'n daladwy i aelodau sylfaenol, uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau

| Disgrifiad | Swm |
|---|---|
| **Grŵp A** | |
| Band 1 arweinydd | £78,917 |
| Band 1 dirprwy arweinydd | £55,242 |
| Band 2 aelod gweithredol | £47,350 |
| **Grŵp B** | |
| Band 1 arweinydd | £71,025 |
| Band 1 dirprwy arweinydd | £49,717 |
| Band 2 aelod gweithredol | £42,615 |
| **Grŵp C** | |
| Band 1 arweinydd | £67,079 |
| Band 1 dirprwy arweinydd | £46,955 |
| Band 2 aelod gweithredol | £40,247 |
| **Pob prif gyngor** | |
| Cyflog sylfaenol | £21,044 |
| Band 3 cadeirydd pwyllgor (os talwyd) | £31,567 |
| Band 4 arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf | £31,567 |
| Band 5 arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill (os talwyd) a dirprwy bennaeth dinesig | £25,253 |
| Pennaeth dinesig (os talwyd) | £31,567 |
| Dirprwy bennaeth dinesig (os talwyd) | £25,253 |
| Aelod Llywyddol (os talwyd) | £31,567 |
| Dirprwy aelod llywyddol (sylfaenol yn unig) | £21,044 |

## Tabl 2: Grwpiau Cyngor yn ôl poblogaeth

| **Grŵp A**<br>**Poblogaeth dros 200,000** | **Grŵp B**<br>**Poblogaeth 100,000 i 200,000** | **Grŵp C**<br>**Poblogaeth hyd at 100,000** |
|---|---|---|
| Caerdydd<br>Rhondda Cynon Taf<br>Abertawe | Pen-y-bont ar Ogwr<br>Caerffili<br>Sir Gaerfyrddin<br>Conwy<br>Y Fflint<br>Gwynedd<br>Casnewydd<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Sir Benfro<br>Powys<br>Bro Morgannwg<br>Wrecsam | Blaenau Gwent<br>Ceredigion<br>Sir Ddinbych<br>Ynys Môn<br>Merthyr Tudful<br>Sir Fynwy<br>Torfaen |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddion a delir i aelodau etholedig.

## Penderfyniad 3/2026: Cyflogau ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh)

21. Bydd cyflog cadeirydd CBTCh yn parhau i gael ei alinio â Band 3 a bydd yn cael ei osod ar £10,522.
22. Mae cyflog is-gadeirydd wedi'i osod ar 50% o gyflog y Cadeirydd a bydd yn £5,261.
23. Nid oes unrhyw newidiadau eraill yn y maes hwn.

## Penderfyniad 4/2026: Taliadau i aelodau'r APC a'r ATA

24. Ffurfiwyd a 3 parc cenedlaethol yng Nghymru; Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog, i ddiogelu tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu APC ar gyfer pob parc. Mae APCau yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses benodiadau cyhoeddus. Mae aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y cyngor yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol
25. Ffurfiwyd y tri ATA yng Nghymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Mae ATAau yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y prif gynghorau ym mhob ardal gwasanaeth tân ac achub.
26. Yn unol â phenderfyniad y Comisiwn i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, mae lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyffredin APCau ac ATAau hefyd yn cael ei chynyddu yn unol ag ASHE.
27. Bydd y gydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyflog uwch Band 3 prif gyngor. Bydd eu helfen rôl yn cynyddu yn unol â hynny. Bydd dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau a swyddi uwch cyflogedig eraill yn parhau i fod yn gysylltiedig â Band 5. Nodir manylion llawn lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau APCau a ATAau yn Nhabl 3.

### Tabl 3: Taliadau i aelodau APC ac ATA

| **APCau** | **Swm** |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol aelod cyffredin | £5,936 |
| Cadeirydd | £16,458 |
| Dirprwy gadeirydd (pryd penodir un) | £10,144 |
| Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall | £10,144 |
| **ATAau** | **Swm** |
| Cyflog sylfaenol aelod cyffredin | £2,968 |
| Cadeirydd | £13,490 |
| Dirprwy gadeirydd (pryd penodir un) | £7,177 |
| Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall | £7,177 |

28. Heblaw am y cynnydd uchod, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig eleni.

## Penderfyniad 5/2026: Aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig

29. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau dalu ffioedd ar y cyfraddau yn Nhabl 4 isod i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.
30. Bydd yr holl benderfyniadau yn yr adran hon sy'n ymwneud ag aelodau cyfetholedig yn berthnasol yn yr un modd i aelodau lleyg CBC sydd â hawliau pleidleisio o 31 Gorffennaf 2024.
31. Rhaid i'r swyddog priodol o fewn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod. Pan fydd y cyfarfod wedi'i bennu am ddiwrnod llawn, bydd y ffi yn cael ei thalu ar y sail hon hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen o fewn 4 awr.
32. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog priodol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

### Tabl 4: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg (sydd â hawliau pleidleisio)

| Rôl | Taliad cyfradd fesul awr | Cyfradd talu hyd at 4 awr | Cyfradd talu 4 awr a mwy |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau ac archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Cadeiryddion lleyg CBCau | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau Cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau lleyg cyffredin CBCau | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau Cyffredin Pwyllgorau Safonau; Pwyllgor Craffu Addysg; Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn a'r Pwyllgor Archwilio | £26.25 | £105 | £210 |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n eistedd ar Bwyllgorau Safonau Prif Gyngor | £26.25 | £105 | £210 |

## Penderfyniad 6/2026: Taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref (CCTh)

33. Gall CCThau ddewis talu iawndal am golled ariannol i'w haelodau, pan fo colled o'r fath wedi digwydd yn sgil mynychu dyletswyddau cymeradwy. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynnal yr aliniad â chyfradd ddyddiol ASHE fel a ganlyn:
    - Hyd at £67.45 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr.
    - Hyd at £134.90 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr.
34. Heblaw am y newid hwn i'r iawndal am golledion ariannol, ni wneir unrhyw newidiadau i daliadau i aelodau CCTh. Nodir y gydnabyddiaeth ariannol sy'n ddyledus yn Nhablau 5 a 6 isod.

### Tabl 5: Taliad costau ychwanegol (fesul grŵp) ar gyfer holl aelodau CCThau

| Math o daliad | Grŵp 1 | Grŵp 2 a 3 | Grŵp 4 a 5 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Taliad costau ychwanegol | £156 yn orfodol i bob aelod | £156 yn orfodol i bob aelod | £156 yn orfodol i bob aelod |
| Rôl uwch | £500 yn orfodol i 1 aelod; yn ddewisol i hyd at 7 | £500 yn orfodol i 1 aelod; yn ddewisol i hyd at 5 | Yn ddewisol i hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu gadeirydd | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30 |
| Colled ariannol | Dewisol | Dewisol | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | Dewisol | Dewisol | Dewisol |
| Costau gofal neu gymorth personol | Gorfodol | Gorfodol | Gorfodol |
| Nwyddau traul swyddfa | £52 yn orfodol neu ad-daliad llawn i'r holl aelodau | £52 yn orfodol neu ad-daliad llawn i'r holl aelodau | £52 yn orfodol neu ad-daliad llawn i'r holl aelodau |

## Tabl 6: Grwpiau CCTh yn ôl etholwyr

| Grŵp | Etholwyr |
|---|---|
| 1 | dros 14,000 |
| 2 | 10,000 i 13,999 |
| 3 | 5,000 i 9,999 |
| 4 | 1,000 i 4,999 |
| 5 | o dan 1,000 |

Os yw incwm neu wariant blynyddol cyngor cymuned neu dref yn barhaol yn fwy na £200,000, byddant yn cael eu symud i'r grŵp mwyaf nesaf.

# Pennod 3. Crynodeb o'r penderfyniadau ar gyfer 2026-27

## 1/2026

35. Mae'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau wedi'i osod ar £21,044.

## 2/2026

36. Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £78,917. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u pennu gan gyfeirio at hyn ac fe'u nodir yn Nhabl 1.

## 3/2026

37. Bydd cyflog cadeirydd CBTCh yn cael ei osod ar £10,522. Cyflog is-gadeirydd fydd £5,261.

## 4/2026

38. Mae cyflog sylfaenol aelodau APC ac ATA wedi'i gynyddu fel y nodir yn Nhabl 3.

## 5/2026

39. Mae'r ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u nodi yn Nhabl 4.

## 6/2026

40. Mae'r iawndal dewisol am golledion ariannol ar gyfer aelodau CCTh yn cael ei gynyddu i:
    - hyd at £67.45 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr
    - hyd at £134.90 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr
41. Mae’r holl daliadau eraill i aelodau CCThau yn aros yr un fath ag yr oeddynt yn y blynyddoedd blaenorol.

# Pennod 4. Penderfyniadau cyfredol o flynyddoedd blaenorol

42. Mae'r penderfyniadau canlynol yn ddigyfnewid o'u cymharu â rhai'r blynyddoedd blaenorol, ond maent yn cael eu hailddatgan yma er mwyn cyflawnrwydd.

## Cyflogau sy'n daladwy i aelodau uwch, dinesig a llywyddol y Prif Gynghorau

43. Mae'r terfyn ar gyfer y cyflogau uwch sy'n daladwy (cap), yn parhau i fod ar waith. Mae hyn wedi'i nodi yn Nhabl 7 isod.

### Tabl 7: Uchafswm nifer yr aelodau cyngor sy'n gymwys i gael taliad cyflog uwch

| Cyngor | Grŵp | Nifer y cynghorwyr | Uchafswm cyflogau uwch sy'n daladwy |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | A | 79 | 19 |
| Rhondda Cynon Taf | A | 75 | 19 |
| Abertawe | A | 75 | 19 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | B | 51 | 18 |
| Caerffili | B | 69 | 18 |
| Sir Gaerfyrddin | B | 75 | 18 |
| Conwy | B | 55 | 18 |
| Y Fflint | B | 67 | 18 |
| Gwynedd | B | 69 | 18 |
| Castell-nedd Port Talbot | B | 60 | 18 |
| Casnewydd | B | 51 | 18 |
| Sir Benfro | B | 60 | 18 |
| Powys | B | 68 | 18 |
| Bro Morgannwg | B | 54 | 18 |
| Wrecsam | B | 56 | 18 |
| Blaenau Gwent | C | 33 | 16 |
| Ceredigion | C | 38 | 17 |
| Sir Ddinbych | C | 48 | 17 |
| Ynys Môn | C | 35 | 17 |
| Merthyr Tudful | C | 30 | 15 |
| Sir Fynwy | C | 46 | 17 |
| Torfaen | C | 40 | 17 |

Cynghorau Grŵp A: poblogaeth dros 200,000

Cynghorau Grŵp B: poblogaeth 100,000 i 200,000

Cynghorau Grŵp C: poblogaeth hyd at 100,000

## Cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch

44. Swyddi o fewn y prif gyngor (Penderfyniad 7 o 2022)
    - Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag 1 swydd uwch o fewn ei awdurdod.
    - Ni ddylid talu cyflog uwch a chyflog dinesig i aelod etholedig.

- Mae pob cyflog uwch a dinesig yn cynnwys cyflog sylfaenol.
- Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag 1 dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng y cyflog uwch ar gyfer y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at y cyflog uwch ar gyfer aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r cyflog uwch sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

## Cyfyngiadau ar daliadau am swyddi y tu allan i'r prif gyngor

45. Ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC neu ATA y maent wedi'u penodi iddo.
46. Maent yn parhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan yr APC neu'r ATA. (Penderfyniad 8 o 2022)
47. Ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw daliad gan gyngor cymuned neu dref y maent yn aelod ohono. Maent yn parhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan y cyngor cymuned neu dref. Pryd y mae'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio. (Penderfyniad 9 o 2022)

## Cefnogaeth i aelodau etholedig prif gynghorau

48. Rhaid i bob awdurdod, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, sicrhau bod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gefnogaeth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol sy'n rhoi mynediad electronig i wybodaeth briodol. (Penderfyniad 10 o 2022)
49. Dylai cymorth o'r fath fod heb unrhyw gost i'r aelod unigol. Rhaid i'r awdurdod priodol beidio â gwneud didyniadau o gyflogau aelodau fel cyfraniad tuag at gost cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu ei fod yn angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd aelodau. (Penderfyniad 11 o 2022)

## Cyflogau uwch a chynorthwywyr penodol neu ychwanegol y weithrediaeth

50. Gall prif gynghorau wneud cais am gyflogau uwch penodol neu ychwanegol nad ydynt yn dod o fewn y Fframwaith presennol (Penderfyniad 12 o 2022).
51. Bydd y Comisiwn yn penderfynu fesul achos beth fydd y cyflog uwch priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth (Penderfyniad 13 o 2022).
52. Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar y broses ymgeisio ym mis Ebrill 2014.

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

53. Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol i bob aelod etholedig cymwys prif gynghorau (Penderfyniad 16 o 2022).

## Darpariaethau absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau

54. Yn yr adran hon, mae "absenoldeb teuluol" yn cyfeirio at absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu a rhieni o fusnes swyddogol.
55. Diffinnir y gwahanol gategorïau hyn yn Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y

gwahanol fathau o absenoldeb yn [absenoldeb o gyfarfodydd awdurdodau lleol: absenoldeb teuluol [HTML] | LLYWODRAETH. CYMRU.]

56. Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol o dan y rheoliadau gwreiddiol neu unrhyw ddiwygiad i'r rheoliadau ni waeth beth fo'r cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol. (Penderfyniad 17 o 2022)
57. Pan fydd deiliad cyflog uwch yn gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol, bydd yn parhau i dderbyn y cyflog am gyfnod yr absenoldeb. (Penderfyniad 18 o 2022)
58. Mae'n fater i'r awdurdod benderfynu a ddylid penodi dirprwy. Bydd yr aelod etholedig sy'n cymryd lle’r deiliad cyflog uwch sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu felly. (Penderfyniad 19 o 2022)
59. Os yw penodi dirprwy cyflogedig yn golygu bod gan yr awdurdod fwy o gyflogau uwch nag uchafswm y nifer o gyflogau uwch sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y PACGA, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm am gyfnod y dirprwyad. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful pe byddai’n golygu bod nifer y cyflogau uwch yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae angen cymeradwyaeth benodol Gweinidogion Cymru mewn amgylchiadau o'r fath. (Penderfyniad 20 o 2022)
60. Cafodd Cyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys ym Mhenderfyniad 20 o 2022, ond roedd newidiadau dilynol i nifer y cynghorwyr ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud ei gynnwys yn yr eithriad hwn yn ddiangen.
61. Pan fydd cyngor yn cytuno ar ddirprwyad cyflogedig ar gyfer absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu’r Comisiwn am y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad (Penderfyniad 21 o 2022).
62. Rhaid diwygio atodlen cydnabyddiaeth ariannol y cyngor i adlewyrchu goblygiadau absenoldeb teuluol (Penderfyniad 22 o 2022).

## Taliadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer deiliaid cyflog uwch prif gynghorau

63. Mae'r fframwaith yn darparu trefniadau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch hirdymor i ddeiliaid cyflog uwch. Mae'r trefniadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad yr adroddiad hwn.

## Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)

64. Mae talu cyfraniad at gostau gofal a theithio a chynhaliaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â CBC wedi bod yn berthnasol i holl aelodau CBAau ers 2022.
65. Mae taliadau i aelodau lleyg cyfetholedig CBC wedi'u cynnwys isod o dan y pennawd Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, APC ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

## Taliadau i awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub

66. Ni ddylai aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch APC (Penderfyniad 27 o 2022).
67. Mae cyflog uwch APC yn cynnwys cyflog sylfaenol yr APC (Penderfyniad 28 o 2022).
68. Ni all aelodau prif gyngor sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC y maent wedi'u penodi iddo. Pryd y mae'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio (Penderfyniad 29 o 2022).
69. Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch ATA (Penderfyniad 34 o 2022).
70. Mae cyflog uwch ATA yn cynnwys cyflog sylfaenol yr ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus (Penderfyniad 35 o 2022).

71. Ni chaiff aelodau prif gyngor sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA y maent wedi'u henwebu iddo. Pryd y mae'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio (Penderfyniad 36 o 2022).

## Aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig

72. Mae amser teithio i leoliad cyfarfod ac yn ôl i'w gynnwys yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol). (Penderfyniad 39, 2022)
73. Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd o flaen llaw gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu. (Penderfyniad 41 o 2022)
74. Mae amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig y gall y swyddog priodol benderfynu ar ei faint cyn y cyfarfod (Penderfyniad 5 o 2023).
75. Rhaid i bob awdurdod, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, sicrhau bod pob aelod cyfetholedig sydd â hawl pleidleisio yn cael cymaint o gefnogaeth ag sy'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gost i'r aelod unigol (Penderfyniad 42 o 2022).
76. Mae aelodau cyfetholedig a lleyg awdurdodau perthnasol sydd â hawliau pleidleisio hefyd yn gallu hawlio taliadau teithio, cynhaliaeth, gofal a chymorth personol fel y nodir yn yr adrannau isod.

## Costau teithio a chynhaliaeth

77. Mae'r cyfraddau ad-dalu milltiroedd, costau teithio eraill a chostau cynhaliaeth y gellir eu hawlio gan aelodau prif gynghorau, APCau, ATAau, a'u haelodau cyfetholedig, ac aelodau CBCau a'u haelodau lleyg wedi'u nodi isod.
78. Gall Cynghorau Cymuned a Thref ddewis ad-dalu costau teithio a/neu gynhaliaeth. Pan fydd yr opsiwn i ad-dalu wedi'i wneud, rhaid i hyn gydymffurfio â'r hyn a nodir yn y canllawiau teithio a chynhaliaeth.

## Costau milltiroedd

79. Rhaid i ad-daliad fod ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau EF (CThEF).[5]

## Costau teithio eraill

80. Rhaid ad-dalu pob hawliad arall am deithio, gan gynnwys mewn tacsi os hwn yw'r unig ddull teithio neu'r dull mwyaf priodol, ar y gost wirioneddol sydd i'w gweld ar dderbynebau.

## Costau cynhaliaeth

81. Mae'r cyfraddau uchaf ar gyfer taliadau cynhaliaeth wedi'u nodi isod ar sail hawliadau a gyflwynir gyda derbynebau:
    - £28 fesul cyfnod o 24 awr fel lwfans ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu
    - £200 ar gyfer aros yn Llundain dros nos

[5] Teithio — cyfraddau a lwfansau milltiroedd a thanwydd - GOV.UK

- £95 ar gyfer aros mewn mannau eraill dros nos
- £30 ar gyfer aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos

## Costau Gofal a Thaliadau Cymorth Personol

82. Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal plant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:
    - costau gofal ffurfiol (cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru neu gyfwerth) i'w talu yn unol â thystiolaeth
    - costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) i'w talu hyd at uchafswm cyfradd sy'n cyfateb i'r cyfraddau awr Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw[6] ar yr adeg yr ysgwyddir y costau
83. Rhaid i hyn fod ar gyfer y costau ychwanegol a ysgwyddir gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig yn briodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy. Dim ond ar ôl cyflwyno derbynebau gan y darparwr gofal y bydd y taliad yn cael ei wneud (Penderfyniad 43 o 2022).

## Cynghorau cymuned a thref

84. Mae'r Panel wedi penderfynu o fis Medi 2024 ymlaen mai dim ond cyfanswm y symiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod sydd angen eu dangos ar ffurflenni adrodd. Y rhain yw'r cyfraniad o £156 at gostau gweithio o gartref a'r lwfans nwyddau traul cyfradd benodol o £52 a'r costau teithio a chynhaliaeth a dalwyd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn unol â'r adroddiad ar gostau gofal a lwfansau cymorth personol. (Penderfyniad 8 o 2024)
85. Ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw, arweinydd, dirprwy arweinydd neu aelod gweithredol) dderbyn unrhyw daliad gan unrhyw gyngor cymuned neu dref, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. (Penderfyniad 53 o 2022)
86. Gall cynghorau cymuned a thref benderfynu ad-dalu eu haelodau mewn perthynas â chostau teithio a/neu gynhaliaeth am fynychu dyletswyddau cymeradwy. Pan fo'r opsiwn i ad-dalu wedi'i gymryd, rhaid cymhwyso'r canllawiau costau teithio a chynhaliaeth. (Penderfyniad 46 a 47 o 2022)

[6] Beth yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol? | Sefydliad y Cyflog Byw

## Atodiad: taliadau absenoldeb oherwydd salwch i ddeiliaid cyflog uwch prif gynghorau

Mae fframwaith y Comisiwn yn darparu trefniadau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch hirdymor i ddeiliaid cyflog uwch fel a ganlyn:

- Diffinnir salwch hirdymor fel absenoldebau ardystiedig dros 4 wythnos.
- Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu hyd nes y bydd cyfnod swydd yr unigolyn yn dod i ben, pa un bynnag a ddaw gyntaf (ond os caiff ei ailbenodi bydd unrhyw falans sy’n weddill o'r 26 wythnos yn cael ei gynnwys).
- O fewn y paramedrau hyn, gall deiliad cyflog uwch ar absenoldeb o herwydd salwch hirdymor barhau i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os dyna yw penderfyniad yr awdurdod.
- Yr awdurdod sy’n penderfynu a ddylid penodi dirprwy, ond bydd y dirprwy yn gymwys i gael y cyflog uwch sy'n briodol i'r swydd.
- Os yw penodi dirprwy cyflogedig yn golygu bod gan yr awdurdod fwy o gyflogau uwch nag uchafswm y nifer o gyflogau uwch sydd i’w talu gan yr awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, caniateir ychwanegiad am gyfnod y dirprwyad. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful pe byddai'n golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn derbyn cyflog uwch. Ni fyddai yn berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod gweithredol y cyngor pe byddai'n golygu bod gan y cabinet fwy na 10 swydd, yr uchafswm statudol).
- Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwyad cyflogedig, rhaid i'r Comisiwn gael gwybod o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad beth yw’r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd amcangyfrifedig y dirprwyad. Rhaid diwygio Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol awdurdodau yn unol â hynny.
- Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig prif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid swyddi uwch gan eu bod yn parhau i dderbyn cyflog sylfaenol am o leiaf 6 mis ni waeth beth fo'u presenoldeb ac mae unrhyw estyniad y tu hwnt i'r amserlen hon yn fater i'r awdurdod.

# Beth sy'n digwydd nesaf

Dylid anfon pob sylw ar y penderfyniadau drafft hyn at:

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

4ydd Llawr

Adeilad Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Neu drwy e-bosti:

cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

heb fod yn hwyrach na 18 Tachwedd 2025.

I gael rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a'r broses benderfynu, ewch i dudalen we y Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru